

Cyfnodau Allweddol 2–3

Celf a dylunio

yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru



Celf a dylunio yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cynulleidfa

Athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon; undebau athrawon a chyrrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer celf a dylunio yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r pwerau yn Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Camau i'w cymryd

Rhaid i athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu yn ôl y dyddiadau a nodir yn y Rhagair.

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	2
Cynnwys pob dysgwr	4
Sgiliau ar draws y cwricwlwm	6
Dysgu ar draws y cwricwlwm	8
Dilyniant mewn celf a dylunio	10
Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio	12
Cyfnod Allweddol 3: Rhaglen Astudio	14
Targed cyrhaeddiad	16
Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol	20

Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer **celf a dylunio** yng Nghymru.

Strwythur y cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Fe'i trefnir ar sail tri chyfnod allweddol, a dyma nhw yn fras*:

	Oedran y disgyblion	Grwpiau blwyddyn
Cyfnod Allweddol 2	7–11	3–6
Cyfnod Allweddol 3	11–14	7–9
Cyfnod Allweddol 4	14–16	10–11

Yng Nghymru, mae'r pynciau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn y cyfnodau allweddol a ddangosir:

Cyfnod Allweddol 2	Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol.
Cyfnod Allweddol 3	Fel yng Nghyfnod Allweddol 2, ynghyd ag iaith dramor fodern.
Cyfnod Allweddol 4	Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol.

Ar gyfer pob pwnc, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol a restrir uchod, mae rhaglenni astudio yn pennu'r hyn y dylid ei addysgu i'r disgyblion ac, ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae targedau cyrhaeddiad yn nodi safonau'r perfformiad a ddisgwylir gan y disgyblion.

Ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae safonau perfformiad y disgyblion yn cael eu disgrifio mewn wyth disgrifiad lefel sy'n mynd yn fwyfwy anodd. Mae disgrifiad ychwanegol y tu hwnt i Lefel 8 er mwyn helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, defnyddir cymwysterau allanol fel y prif ddull o asesu cyrhaeddiad yn y cwricwlwm cenedlaethol. Bob blwyddyn bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi rhestr o gymwysterau sydd, dan Adran 96 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio gyda disgyblion o oedran ysgol gorfodol.

* Mae'r cyfnodau allweddol yn cael eu diffinio'n fanwl gywir yn Adran 103 Deddf Addysg 2002.

Cynnwys pob dysgwr

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig yn cynnwys adran sy'n sôn am gynnwys pob dysgwr ac mae'n egluro hawl pob dysgwr a chyfrifoldebau ysgolion.

Dyddiadau gweithredu

Mae'r rhaglenni astudio a'r targed cyrhaeddiad diwygiedig ar gyfer **celf a dylunio** yn dod yn ofynion cyfreithiol trwy gyfrwng Gorchymyn a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe ddônt i rym ar:

- 1 Awst 2008 ar gyfer Blynnyddoedd 3, 4 a 5 a Blynnyddoedd 7 ac 8
- 1 Awst 2009 ar gyfer Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9.

O'r dyddiadau hyn bydd y cwricwlwm cenedlaethol presennol ar gyfer **celf a dylunio** yn cael ei ddisodli.

Llywodraeth Cynulliad Cymru Ionawr 2008

Cynnwys pob dysgwr

Cyfrifoldebau ysgolion

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gweithredu'r Hawliau*, rhaid sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol yn gosod dyletswydd bellach ar ysgolion yng Nghymru tuag at y dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, sef cael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dylai ysgolion feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylai ysgolion gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai ysgolion ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ysgolion weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff dysgwyr brofiadau perthnasol a hygyrch.

Ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn enwedig, dylent:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai ysgolion geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai ysgolion gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylai ysgolion ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n cyfateb â'u gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylai ysgolion hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr wrth ddysgu.

Hawliau dysgwyr

Dylai ysgolion yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r ysgol addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu. Dylai hefyd sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. I ehangu eu dysgu, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall ysgolion ddefnyddio cynnwys o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol o fewn y cwricwlwm. Dylai ysgolion ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses ddysgu.

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sy'n llawer is na'r hyn a ddisgwylir mewn unrhyw gyfnod allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu rhaglenni astudio i gyfateb â'r anghenion hynny. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwyr unigol, am gyfnod dros dro fel arfer. Serch hynny, ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.

Os nad oes modd ymdrin â chynnwys yr holl raglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddewis pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm yn gyd-destunau ar gyfer dysgu.

Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai ysgolion ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrion a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3–19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai'r fframwaith ddarparu'r sail ar gyfer gwneud cynnydd effeithiol yn y sgiliau hyn, y gellir eu hasesu drwy ystod o gymwysterau, gan gynnwys Sgiliau Allweddol.

Datblygu meddwl



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn **celf a dylunio**, bydd y dysgwyr yn archwilio ystod o wybodaeth ac adnoddau ac yn arbrofi â'r wybodaeth a'r adnoddau hynny er mwyn cynllunio a datblygu eu gweithgareddau creadigol a myfyrio yn eu cylch. Byddant yn herio tybiaethau, yn edrych ar bethau mewn ffordd newydd ac yn hybu agwedd agored at syniadau newydd. Byddant yn datblygu'r gallu i adnabod tebygrwydd neu wahaniaethau a chreu cysylltiadau annisgwyl, adeiladu ar syniadau i greu syniadau gwell, a manteisio ar yr annisgwyl.

Datblygu cyfathrebu



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn **celf a dylunio**, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau cyfathrebu ehangach i fynegi'u syniadau a'u hemosiynau. Bydd eu hymateb i waith pobl eraill yn llywio'u gwaith eu hunain.

Datblygu TGCh



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn **celf a dylunio**, bydd y dysgwyr yn defnyddio'u sgiliau TGCh i ymchwilio i syniadau creadigol, eu trin, eu datblygu neu'u gwireddu. Byddant yn dewis meddalwedd ac offer priodol i'w cynorthwyo i ddylunio a gwneud. Byddant yn ystyried TGCh yn gyfrwng yn ei rhinwedd ei hun neu'n ei hystyried yn rhan o ganlyniad amlgyfrwng, wedi'i hintegreiddio â deunyddiau a phrosesau eraill.

Datblygu rhif



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn **celf a dylunio**, bydd y dysgwyr yn defnyddio sgiliau rhif megis gwaith mesur, gwaith amcangyfrif, graddfa, cyfrannedd, patrwm a siapiau i ddatblygu, llywio a darparu adnoddau ar gyfer eu gweithgareddau creadigol.

Dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, dylai gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr gael eu datblygu a'u cymhwyso o fewn cyd-destunau eu llwybrau 14–19 unigol gan gynnwys y Craidd Dysgu.

Y Cwricwlwm Cymreig (7–14) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14–19)



Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn **celf a dylunio**, bydd y dysgwyr yn datblygu mewn modd uniongyrchol ddealltwriaeth ystyrion o'r amgylchedd, y diwylliant a'r iaith sydd o'u cwmpas. Byddant yn cael mynediad i waith celf a dylunio hanesyddol a chyfoes o Gymru a fydd yn cyfoethogi'u gweithgareddau creadigol. Byddant yn meithrin ymwybyddiaeth o'r modd y gall celf a dylunio wella'r amgylchedd a'r modd y gallant hwy fel unigolion gyfrannu at hynny.

Addysg bersonol a chymdeithasol



Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn **celf a dylunio**, bydd y dysgwyr yn archwilio ac yn mynegi eu syniadau a'u teimladau am faterion personol, cymdeithasol, amgylcheddol, moesol ac ysbrydol trwy gyfrwng eu gweithgareddau creadigol. Trwy weithgareddau celf a dylunio, byddant yn dod yn ymwybodol o ddiwylliannau eraill a ffyrdd eraill o fyw, ac yn datblygu'r cysyniad o ddinasyddiaeth fyd-eang. Byddant yn mwynhau'r gweithgareddau ac yn datblygu diddordebau sy'n eu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes, gwaith a hamdden.

Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Dylai dysgwyr 11–19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn **celf a dylunio**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu hymwybyddiaeth o yrfaoedd a'r byd gwaith trwy eu dealltwriaeth o'r dulliau a ddefnyddir gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr wrth ymarfer eu crefft.

Dilyniant mewn celf a dylunio

Datblygiad Creadigol yn y Cyfnod Sylfaen

Dylai plant ddatblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd yn barhaus ar draws y cwricwlwm. Dylai eu chwilfrydedd a'u tuedd naturiol i ddysgu gael eu symbylu gan brofiadau synhwyaidd pob dydd, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Dylai plant gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol ym maes celf, crefft, dylunio, cerddoriaeth, dawn a symud. Dylai plant archwilio ystod eang o symbyliadau, a datblygu eu gallu i gyfleu a mynegi eu syniadau creadigol a myfyrio ynghylch eu gwaith.

Celf a dylunio yng Nghyfnod Allweddol 2

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Byddant yn gwneud hynny drwy ymwneud mewn modd integredig â gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, cynnal ymchwiliadau creadigol, a gwneud eu gwaith eu hunain. Mae celf a dylunio yn ysgogi creadigrwydd a dychymyg, ac mae'n herio'r dysgwyr i lunio barn wybodus a gwneud penderfyniadau ymarferol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a phrosesau, byddant yn cyfleu'u syniadau a'u teimladau trwy gyfrwng iaith weledol, cyffyrddol a synhwyaidd. Mae archwilio, gwerthfawrogi a mwynhau ym maes celf a dylunio yn cyfoethogi bywydau personol a chyhoeddus y dysgwyr.

Celf a dylunio yng Nghyfnod Allweddol 3

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yng Nghyfnod Allweddol 2. Byddant yn gwneud hynny trwy gyfrwng eu gallu cynyddol i greu cysylltiad rhwng eu hymchwiliadau creadigol wrth wneud eu gwaith eu hunain a gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill. Mae celf a dylunio yn ysgogi creadigrwydd a dychymyg trwy annog y disgyblion i herio tybiaethau, edrych ar bethau mewn ffordd newydd, bod yn agored i syniadau newydd, a llunio barn wybodus a gwneud penderfyniadau ymarferol er mwyn cyfleu'u syniadau a'u teimladau. Byddant yn tyfu'n fwyfwy annibynnol wrth ddewis defnyddiau a phrosesau ac, o brofiadau yn y gorffennol, byddant yn tyfu o ran hyder wrth ddefnyddio iaith weledol, cyffyrddol a synhwyaidd. Mae archwilio, gwerthfawrogi a mwynhau ym maes celf a dylunio yn cyfoethogi bywydau personol a chyhoeddus y dysgwyr.



Sgiliau

Dylid ystyried Deall, Ymchwilio a Gwneud yn weithgareddau integredig.

Deall

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddisgrifio a thynnu cymariaethau:
 - rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill
2. archwilio ac arbrofi â'r dulliau a ddefnyddiwyd gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill o wahanol:
 - gyfnodau
 - lleoedd
 - diwylliannau*e.e. ystyried sut y gall gwaith o ddiwylliannau dieithr ddylanwadu ar y cynllun patrymol ar gyfer eu prosiect tecstilau eu hunain*
3. gwerthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd yn eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion a gwerthuso canlyniadau'r gwaith hwnnw trwy:
 - drafod
 - darllen



- ysgrifennu
- myfyrio yn eu cylch.

Ymchwilio

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddethol a chofnodi ar sail:
 - gwaith arsylwi
 - profiad
 - y cof
 - y dychymyg
2. ymchwilio:
 - i'r amgylchedd naturiol
 - i'r amgylchedd gwneud
 - i fyd y dychymyggan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau
3. trefnu:
 - deunyddiau cyfeirio
 - adnoddauer mwyn datblygu syniadau, themâu a theimladau, e.e. *casglu gwybodaeth o'r rhyngwrwyd, y llyfrgell neu oriel leol ar gyfer prosiect dylunio am rywogaethau sydd mewn perygl*

Ystod

Mewn celf a dylunio, dylai disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 ddatblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau ymchwilio er mwyn cyfoethogi a llywio'u gwaith gwneud.

Deall

Lle bo hynny'n briodol, dylai'r disgyblion gael eu hysgogi a'u hysbrydoli gan:

- artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill
- dulliau a phrosesau
- cyfryngau
- arddulliau
- syniadau
- gwaith celf, crefft a dylunio lleol a Chymreig
- delweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau hanesyddol a chyfoes.



Lle bo hynny'n briodol, dylent ddatblygu eu dealltwriaeth trwy gyfrwng:

- llyfrau
- fideos
- adnoddau digidol
- y rhyngwrwyd
- orielau
- artistiaid, crefftwyr a dylunwyr sy'n ymarfer eu crefft
- adnoddau eraill.



Ymchwilio

Dylai'r disgyblion ymchwilio i:

- briodweddau defnyddiau a phrosesau
- gwrthrychau ac amgylcheddau naturiol
- gwrthrychau ac amgylcheddau gwneud
- gwrthrychau ac amgylcheddau dychmygol.

Lle bo hynny'n briodol, dylent ddefnyddio yn eu gwaith eu hunain ganfyddiadau a gasglwyd o:

- cadw llyfr braslunio i:
 - ddatblygu syniadau a theimladau
 - archwilio themâu
 - arbrofi â phrosesau a chyfryngau
 - ymchwilio ac ymholi.

Gwneud

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- archwilio, arbrofi a chymhwyso elfennau iaith weledol, cyffyrddol a synhwyrddol celf, crefft a dylunio, sy'n cynnwys:
 - llinell, e.e. *llinellau hir, llinellau byr, llinellau tonnog, llinellau trwm*
 - tŵn, e.e. *tonau golau, canolig a thywyll*
 - lliw, e.e. *lliwiau sylfaenol a thrydyddol, lliwiau sy'n cydweddu â'i gilydd, lliwiau cynnes ac oer*
 - patrwm, e.e. *patrymau naturiol ac wedi eu gwneud, patrymau o ddiwylliannau eraill, patrymau ailadroddus*
 - gwead, e.e. *gweadau garw a llyfn mewn ystod o ddefnyddiau*
 - siâp, e.e. *siapiau o fyd natur, y byd gwneud a byd eu dychymyg*
 - ffurf, e.e. *siapiau tri dimensiwn amrywiol*

- dylunio a gwneud:
 - delweddau dau ddimensiwn
 - gwrthrychau ac arteffactau tri dimensiwn
 gan ddefnyddio ystod o ddefnyddiau amrywiol at amrywiaeth o ddibenion, e.e. *defnyddio ystod o gyfryngau i wneud portread dau ddimensiwn neu dri dimensiwn sydd wedi'i seilio ar gerdd neu stori*

- defnyddio'u profiad o wahanol ddefnyddiau, offer a thechnegau a'u gwybodaeth amdanynt:
 - yn arbrofol
 - yn fynegiannol.



- lyfrau
- fideos
- adnoddau digidol
- y rhynggrwyd
- orielau
- artistiaid, crefftwyr a dylunwyr sy'n ymarfer eu crefft
- adnoddau eraill



ac o amrywiaeth o gyd-destunau gan gynnwys:

- enghreifftiau lleol a Chymreig
- diwylliannau a chyfnodau gwahanol.



Gwneud

Dylai'r disgyblion ddylunio a gwneud y canlynol gan ddangos dychymyg a mynegiant:

- gwrthrychau
- arteffactau
- delweddau.

Dylent ddefnyddio amrywiaeth o:

- offer a chyfarpar

- defnyddiau, e.e. *paentiau, pensiliau, creonau, pasteli, siarcol, inciau, defnyddiau gwrthiannol, cleiau, defnyddiau cynaliadwy, tecstilau, cyfryngau digidol ac ati*
- prosesau, e.e. *lluniadu, paentio, printio, prosesau amlgyfrwng, prosesau crefft, prosesau tri dimensiwn, prosesau digidol, ac ati.*

Dylent gael cyfleoedd i weithio fel:

- unigolion
- aelodau o grŵp.

Dylent weithio mewn gwahanol gyd-destunau megis:

- orielau
- ystafell gelf
- yn yr awyr agored
- gartref.

Dylid addysgu'r disgyblion i ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau celf a dylunio.

Dylent allu dilyn cyfarwyddiadau i leihau'r risgiau iddynt hwy eu hunain ac eraill.



Sgiliau

Dylid ystyried Deall, Ymchwilio a Gwneud yn weithgareddau integredig.

Deall

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddefnyddio'u gwybodaeth am waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill i gyfoethogi a llywio'u gwaith eu hunain trwy:



- ddadansoddi
- cymharu
- gwerthuso

e.e. casglu gwybodaeth am artist o'r rhyngwrwyd, y llyfrgell, orielau neu gyfweiliadau a defnyddio'r wybodaeth honno yn y fath fodd fel ei bod yn dylanwadu ar eu gwaith eu hunain

2. archwilio arferion gweithio amrywiol artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o wahanol:

- gyfnodau
- lleoedd
- diwylliannau



gan ystyried eu diben a'u bwriadau

3. gwerthuso'u gwaith, eu dulliau a chanlyniadau eu hymchwiliad gan addasu a mireinio eu gwaith trwy:

- drafod
- darllen
- ysgrifennu
- myfyrio yn ei gylch.



Ymchwilio

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddatblygu sgiliau penodol ar gyfer cofnodi ar sail:

- arsylwi
- profiad
- y cof
- y dychymyg

a datblygu sgiliau penodol ar gyfer ymchwilio:

- i'r amgylchedd naturiol
- i'r amgylchedd gwneud
- i fyd y dychymyg gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau

Ystod

Mewn celf a dylunio, dylai disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 ddatblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau ymchwilio er mwyn cyfoethogi a llywio'u gwaith gwneud.

Deall

Lle bo hynny'n briodol, dylai'r disgyblion gael eu hysgogi a'u hysbrydoli gan:

- artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill
- gwaith eu cyfoedion
- dulliau a phrosesau
- cyfryngau
- syniadau
- arddulliau
- gwaith celf, crefft a dylunio lleol a Chymreig
- delweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau hanesyddol a chyfoes.



Lle bo hynny'n briodol, dylent ddatblygu eu dealltwriaeth trwy gyfrwng:

- llyfrau
- fideos
- adnoddau digidol
- y rhyngwrwyd
- orielau
- artistiaid, crefftwyr a dylunwyr sy'n ymarfer eu crefft
- adnoddau eraill.



Ymchwilio

Dylai'r disgyblion ymchwilio i:

- briodweddau defnyddiau a phrosesau
- gwrthrychau ac amgylcheddau naturiol
- gwrthrychau ac amgylcheddau gwneud
- gwrthrychau ac amgylcheddau dychmygol.

Lle bo hynny'n briodol, dylent ddefnyddio yn eu gwaith eu hunain ganfyddiadau perthnasol a gasglwyd o:

- lyfrau
- fideos

2. archwilio a threfnu:
 - ystod o ddeunydd cyfeirio
 - ystod o adnoddau
 er mwyn sefydlu a datblygu syniadau neu themâu
3. cadw llyfr braslunio i fynd i'r afael â gwahanol agweddau ar ymchwilio er mwyn:
 - datblygu syniadau a theimladau
 - archwilio themâu
 - archwilio defnyddiau a phrosesau ac arbrofi â nhw
 - cychwyn a chefnogi gwaith annibynnol
e.e. ar ôl ymchwilio i ffurfiau organig, datblygu syniadau am ffurfiau cerflunol i addurnio'r corff.

Gwneud

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. archwilio, arbrofi a chymhwyso elfennau iaith weledol, cyffyrddol a synhwyrdd celf, crefft a dylunio
2. dylunio a gwneud delweddau ac arteffactau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, prosesau a syniadau
3. cael profiad o ystod eang o dechnegau a chyfryngau i:
 - wireddu eu syniadau
 - mynegi eu teimladau
 - cyfleu ystyr*e.e. cynhyrchu cerflun ar gyfer man penodol mewn gardd amlsynhwyrdd.*



- adnoddau digidol
 - y rhyngwyd
 - orielau
 - artistiaid, crefftwyr a dylunwyr sy'n ymarfer eu crefft
 - eu harbrofion ymarferol a'u cofnodion eu hunain
 - adnoddau eraill
- ac o amrywiaeth o gyd-destunau gan gynnwys:
- enghreifftiau lleol a Chymreig
 - diwylliannau a chyfnodau gwahanol.



Dylai eu hymchwiliadau a'r wybodaeth a gesglir gyfoethogi a llywio'u gwaith eu hunain.

Gwneud

Dylai'r disgyblion ddylunio a gwneud y canlynol gan ddangos dychymyg a mynegiant:

- gwrthrychau
- arteffactau
- delweddau.

Dylent ddefnyddio amrywiaeth o:

- offer a chyfarpar
- defnyddiau, *e.e. paentiau, pensiliau, creonau, pasteli, siarcol, inciau, defnyddiau gwrthiannol, cleiau, defnyddiau cynaliadwy, tecstilau, cyfryngau digidol ac ati*
- prosesau, *e.e. lluniadu, paentio, printio, prosesau amlgyfrwng, prosesau crefft, prosesau tri dimensiwn, prosesau digidol, ac ati.*

Dylent gael cyfleoedd i weithio fel:

- unigolion
- aelodau o grŵp.

Dylent weithio mewn gwahanol gyd-destunau megis:

- orielau
- ystafell gelf
- yn yr awyr agored
- gartref.

Dylid addysgu'r disgyblion i ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau celf a dylunio. Dylent allu dilyn cyfarwyddiadau i leihau'r risgiau iddynt hwy eu hunain ac eraill.

Targed cyrhaeddiad

Disgrifiadau lefel

Mae'r disgrifiadau lefel canlynol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, dylai perfformiad y mwyafrif mawr o'r disgyblion ddod o fewn ystod Lefelau 2 i 5, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o fewn yr ystod 3 i 7. Mae Lefel 8 ar gael i ddisgyblion galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8.

Lefel 1

Bydd y disgyblion yn dechrau gwneud cysylltiad rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill, a byddant yn ymateb i'r rhain trwy gyfrwng dulliau syml o gyfathrebu. Byddant yn cofnodi eu syniadau a'u teimladau trwy dynnu lluniau a thrwy ddulliau eraill ar sail gwaith arsylwi, profiad a'r dychymyg. Byddant yn defnyddio defnyddiau ac offer i wneud delweddau ac arteffactau, a byddant yn arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus ag iaith weledol, cyffyrddol a synhwyrdd sylfaenol celf, crefft a dylunio.

Lefel 2

Bydd y disgyblion yn adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng eu gwaith ymarferol eu hunain a gwaith gan eraill; byddant yn ymateb i'r rhain trwy gyfrwng dulliau syml o gyfathrebu a byddant yn gallu disgrifio eu teimlad a'u barn amdanynt. Byddant yn cofnodi eu delweddau a'u syniadau ar sail gwaith arsylwi, profiad, y cof a'r dychymyg gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau y byddant wedi eu casglu a'u trefnu. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau ac offer i wneud delweddau ac arteffactau, a byddant yn archwilio nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd yn ymarferol ac yn ddychmygus gan wneud newidiadau i'w gwaith pan deimlant fod eu hangen.

Lefel 3

Bydd y disgyblion yn disgrifio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill, a byddant yn dechrau dod yn ymwybodol o ddulliau a phwrpasau gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr ac yn dechrau ymateb yn ddychmygus iddynt. Byddant yn dethol ac yn cofnodi eu syniadau a'u teimladau trwy dynnu lluniau a thrwy ddulliau eraill ar sail gwaith arsylwi, profiad a'r dychymyg gan ddewis o blith amrywiaeth o adnoddau y byddant wedi eu casglu a'u trefnu yn sail ar gyfer eu gwaith eu hunain. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, offer a thechnegau i gael gwahanol deilliannau, a byddant yn arbrofi â nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd gan wneud newidiadau addas i'r gwaith pan welant fod angen gwneud hynny.

Lefel 4

Bydd y disgyblion yn cymharu eu gwaith eu hunain â gwaith gan eraill o wahanol ddiwylliannau. Byddant yn cyfleu eu syniadau a'u teimladau'n ddychmygus, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r dulliau a ddefnyddir gan eraill a dangos eu bod yn deall gwahanol bwrpasau eu gwaith. Byddant yn dethol ac yn cofnodi delweddau a syniadau ar sail gwaith arsylwi, profiad a'r dychymyg, a byddant yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a dulliau i gefnogi datblygiad eu gwaith. Byddant yn paratoi ac yn datblygu syniad neu thema ar gyfer eu gwaith trwy gasglu a threfnu adnoddau gweledol ac adnoddau eraill. Byddant yn medru rheoli ystod o ddefnyddiau, offer a thechnegau i gael amrywiaeth o ddeilliannau. Byddant yn cymhwyso eu dealltwriaeth o nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd, a byddant yn adolygu ac yn newid eu gwaith pan welant fod angen gwneud hynny.

Lefel 5

Bydd y disgyblion yn cymharu'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir yn eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill, gan gyfleu eu syniadau a'u teimladau'n ddychmygus, a chan ddangos yn glir eu bod yn deall y dulliau a'r pwrpasau a ddefnyddir gan eraill o wahanol ddiwylliannau. Byddant yn tynnu lluniau ac yn defnyddio dulliau eraill yn ddethol i archwilio, dehongli a chofnodi eu syniadau a'u teimladau ar sail gwaith arsylwi, profiad a'r dychymyg. Byddant yn trefnu eu gwaith gan gasglu a defnyddio deunyddiau cyfeirio i ddatblygu syniad neu thema. Byddant yn arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus ag amrywiaeth o ddulliau, defnyddiau, offer a thechnegau gan gymhwyso gwybodaeth eang am nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd. Byddant yn adolygu ac yn newid eu gwaith er mwyn cyflawni'u bwriadau.

Lefel 6

Bydd y disgyblion yn archwilio ac yn dangos eu dealltwriaeth wrth gymharu'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir yn eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill. Byddant yn ymateb yn ymarferol ac yn ddychmygus i'r modd y bydd syniadau a theimladau'n cael eu cyfleu mewn gwahanol ddiwylliannau a chyd-destunau. Byddant yn tynnu lluniau ac yn defnyddio dulliau eraill yn ddethol i archwilio, dehongli a chofnodi eu syniadau, eu teimladau a'u canfyddiadau ar sail gwaith arsylwi, profiad a'r dychymyg. Byddant yn dangos eu gallu i drefnu eu gwaith a chasglu a defnyddio deunyddiau cyfeirio i ddatblygu syniad neu thema. Byddant yn arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus, byddant yn dangos hyder cynyddol wrth ddefnyddio defnyddiau, offer a thechnegau i weithredu syniadau, a byddant yn archwilio nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd gan adolygu a newid eu gwaith i wireddu'u bwriadau.

Targed cyrhaeddiad

Lefel 7

Bydd y disgyblion yn gwneud cymariaethau cytbwys rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill gan ddangos dealltwriaeth glir o'r amrywiaeth o ddulliau ac ymagweddau a ddefnyddir. Byddant yn medru dyfalu a chyfleu sut y gellir dehongli syniadau a theimladau mewn ffyrdd gwahanol, a byddant yn medru ymateb yn ymarferol ac yn ddychmygus i ddelweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau. Byddant yn gallu archwilio, dethol, cofnodi a chyfleu arsylwadau, syniadau, canfyddiadau a theimladau o amrywiaeth o ffynonellau, a byddant yn trefnu deunyddiau symbylu a deunyddiau cyfeirio wrth gynllunio a datblygu eu hymchwiliadau. Byddant yn arbrofi'n hyderus ag ystod eang o gyfryngau, offer a thechnegau i wireddu amrywiol fwriadau, a byddant yn arbrofi ag amrywiaeth o ddulliau a ddatblygwyd ganddynt hwy eu hunain a chan eraill, gan ddangos eu bod yn deall iaith weledol, cyffyrddol a synhwyrdd celf, crefft a dylunio. Byddant yn dangos eu gallu i adolygu prosesau a deilliannau mewn modd beirniadol ac adeiladol.

Lefel 8

Bydd y disgyblion yn archwilio ac yn dadansoddi'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir gan eraill ac yn dangos dealltwriaeth graff o'r berthynas rhyngddynt a'u gwaith eu hunain. Byddant yn gwerthuso delweddau ac arteffactau a byddant yn gallu egluro sut y mae syniadau, teimladau ac ystyron yn cael eu cyfleu a sut y gellir eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Byddant yn ymateb yn ymarferol ac yn ddychmygus i amrywiaeth o symbyliadau gwahanol. Byddant yn dangos y gallu i archwilio, dethol, cofnodi a chyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol, a byddant yn dehongli canfyddiadau a phrofiadau personol yn effeithiol. Wrth gynllunio datblygiad eu hymchwiliadau eu hunain, byddant yn adnabod, yn crynhoi ac yn trefnu deunyddiau symbylu a deunyddiau cyfeirio, ac yn ystyried dulliau a deilliannau. Byddant yn dethol ac yn defnyddio cyfryngau, offer a thechnegau priodol a byddant yn hyderus wrth ddatblygu ffyrdd o greu delweddau ac arteffactau ar sail eu gwybodaeth eang o iaith weledol, cyffyrddol a synhwyrdd celf, crefft a dylunio. Byddant yn medru adolygu'r gwaith sydd ar y gweill ganddynt mewn modd adeiladol.

Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn archwilio ac yn dadansoddi'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir gan eraill, ac yn dangos dealltwriaeth glir o'r berthynas rhwng y pethau hyn a'u gwaith eu hunain. Byddant yn medru gwerthuso delweddau ac arteffactau mewn modd beirniadol ac adeiladol, a byddant yn gallu egluro sut y bydd syniadau, teimladau ac ystyron yn cael eu cyfleu a sut y gellir eu dehongli mewn amrywiol ffyrdd. Byddant yn ymateb yn ymarferol ac yn ddychmygus gan ddangos eu gallu i gyfuno amrywiaeth o gonfensiynau cyd-destunol a diwylliannol. Byddant yn dangos gallu cyson i archwilio, dethol, cofnodi a chyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol, a chan ddehongli canfyddiadau a phrofiadau personol yn effeithiol. Wrth gynllunio datblygiad eu hymchwiliadau eu hunain, byddant yn adnabod, yn crynhoi ac yn trefnu deunyddiau symbylu a deunyddiau cyfeirio, a byddant yn dadansoddi dulliau a deilliannau. Byddant yn dethol cyfryngau, offer a thechnegau priodol yn ofalus ac yn eu defnyddio'n fedrus. Byddant yn hyderus wrth ddatblygu ffyrdd o greu delweddau ac arteffactau ar sail eu dealltwriaeth eang a'u defnydd sensitif o'r iaith weledol, cyffyrddol a synhwyrdd celf, crefft a dylunio. Byddant yn dangos eu gallu i adolygu eu gwaith mewn modd beirniadol ac adeiladol.

Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol canlynol yn anstatudol. Cawsant eu hysgrifennu i gydnabod cyrhaeddiad disgyblion sy'n gweithio islaw Lefel 1. Mae Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 1, 2 a 3 yn cydreddeg â Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 1, 2 a 3.

Cyfnod Sylfaen	Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen	Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen	Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen	Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen	Lefel 1 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen	Lefel 2 Cwricwlwm Cenedlaethol
Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen	Lefel 3 Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad y dylai disgyblion sy'n gweithio ar ddeilliant penodol eu dangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu ynghylch deilliant cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

Deilliant 1

Bydd y disgyblion yn mwynhau trin ac ymchwilio i ddefnyddiau/adnoddau. Byddant yn ymateb mewn ffyrdd amrywiol i brofiadau synhwyrdd ac yn gwneud marciau/patrymau/symbolau gydag amrywiaeth o gyfryngau.

Deilliant 2

Bydd y disgyblion yn dechrau defnyddio llinellau, siapiau a symbolau i greu delweddau. Byddant yn gallu dewis/trin offer syml a chydosod deunyddiau i wneud arteffactau sy'n ystyrlon iddynt, gan ddefnyddio technegau cyfarwydd. Byddant yn ymateb i gwestiynau syml ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

Deilliant 3

Bydd y disgyblion yn cynyddu eu gwybodaeth am nodweddion amrywiaeth o ddefnyddiau/adnoddau trwy archwilio ac ymchwilio, a byddant yn cydweithio ag eraill fwyfwy. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o offer gyda manylder cynyddol i greu delweddau ac arteffactau sy'n mynegi eu syniadau/teimladau. Bydd y disgyblion yn ymateb i'w gwaith eu hunain a gwaith eraill.